

rheini mewn llawysgrifau neu yng ngholofnau hysbysebion rhai o'r newyddiaduron Cymreig-Americanaidd. Er hynny, mae hon yn rhestr ddefnyddiol o gynnyrch gwasg gyfnodol Gymreig America.

Y rhain, felly, yw'r prif drafodaethau a'r rhestrau cyhoeddedig mwyaf cynhwysfawr o gynnyrch gwasg gyfnodol Gymraeg a Chymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trafodaethau byrion yw nifer ohonynt, yn enwedig eiddo Thomas Watts, John James a Isaac Foulkes, ac nid oedd rhestru na dosbarthu'r cynnyrch yn rhan o'r bwriad. Mae'r mwyafrif o'r trafodaethau hyn yn perthyn i'r ganrif ddiwethaf, cyn sefydlu'r prif gasgliadau a chyn ganlyniad, bu'n rhaid i lyfrfyddwyr y cyfnod ddibynnu ar gasgliadau preifat ac ar wybodaeth bersonol am gynnyrch y wasg, a hyn sy'n cyfrif, mae'n debyg, bod eu gwybodaeth am y cynnyrch hwnnw'n gwbl annigonol.

Bu'n rhaid aros tan 1976 cyn ymddangos o'r rhestr fwyaf cyflawn o gylichronau Cymraeg a Chymreig pan gyhoeddwyd *Cylchgronau Cymreig a'u lleoliad* gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Prif bwrpas y gwaith hwn sy'n cynnwys tua 2,000 o deitlau yw rhestru daliadau'r Llyfrgell o'r defnyddiau hyn yn ogystal â daliadau prif lyfrgelloedd eraill Cymru. Eithr rhestr o deitlau wedi eu trefnu yn ôl yr wyddor yw hon, a chan mai ei phrif amcan yw nodi lleoliad yr eitemau, ni cheir ynddi fanylion llyfryddol fel enwau cyhoeddwy, argraffwyr na golygyddion, na gwybodaeth chwaith am faint, pris na chynnwys y defnyddiau. Er hynny, mae'r rhestr bwysig hon yn anhepgor i'r sawl sy'n chwilio am wybodaeth am gynnyrch gwasg gylichronol Cymru cyn 1976.

O'i chymharu â'r wasg gyfnodol Gymreig, cafodd y wasg gyfnodol Brydeinig gryn sylw gan ysgolheigion a lyfrgellwyr fel ei gyllydd, a chyhoeddwyd nifer o restrau a llyfryddiaethau o'r cynnyrch hwnnw dros y blynyddoedd. Ymhlith y pwysicaf o'r rhain, y mae *The British union catalogue of periodicals (BUCOP)*, sy'n amcanu at restru holl gyfnodolion y byd o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd at heddiw sydd ar gael yng nghasgliadau prif lyfrgelloedd gwledydd Prydain. Cyhoeddwyd *BUCOP* mewn pedair cyfrol rhwng 1955 a 1958 a chafwyd atodiad i'r gwaith yn 1962. Cyhoeddir manylion am deitlau cylchgronau newydd mewn rhifynnau chwarterol y dechreuwyd eu cyhoeddi yn 1964. Cynhwysir eitemau Cymraeg a Chymreig yn y

Tudalen flaen adargraffiad 1902 Isaac Foulkes, Lerpwl, o'r argraffiad gwreiddiol o'r cylchgrawn Cymraeg cyntaf. Credir bod tua pum copi o'r argraffiad gwreiddiol wedi goroesi, mae tri ohonynt yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cyhoeddwyd 100 copi o adargraffiad Isaac Foulkes.

catalog, ond prin y gellir dweud ei fod yn gyflawn o bell ffordd. Gwaith tebyg sy'n rhestru daliadau prif lyfrgelloedd y Taleithiau Unedig yw'r *Union list of serials held in libraries of the United States and Canada* a ymddangosodd gyntaf yn 1927. Cyhoeddwyd y trydydd argraffiad mewn pump o gyfrolau swmpus yn 1965, a rhestrir ynddynt ddaliadau bron i fil o sefydliadau. Mae'r gwaith yn dilyn yr un patrwm â *BUCOP* gyda'r gwahaniaeth bod yr eitemau wedi'u rhestru yn ôl ffurf y teitl diweddaraf yn hytrach na'r un cynharaf. Mae'r cyfrolau hyn yn arbennig o ddefnyddiol i'r sawl sy'n chwilio am wybodaeth ynglŷn â rhai o'r cylchgronau Cymreig-Americanaidd gan fod casgliadau sylweddol o'r defnyddiau hyn yn rhai o

lyfrgelloedd prifysgolion y Taleithiau.

Cyfrol ddefnyddiol arall yw eiddo J. G. Muddiman, *The Times tercentenary handlist of English and Welsh newspapers, magazines and reviews*, a gyhoeddwyd yn 1920, ac sy'n seiliedig, yn bennaf, ar ddaliadau'r Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Bodley yn Rhydychen. Mae'r rhestr yn anwybyddu'r gwahaniaeth rhwng cylchgronau a newyddiaduron, a threfnir yr eitemau yn ôl blwyddyn eu sefydlu. Mae i'r gwaith ddwy restr gronolegol — un ar gyfer eitemau a gyhoeddwyd yn Llundain, a'r llall ar gyfer eitemau a gyhoeddwyd y tu allan i'r brifddinas. Mae i'r trefniant hwn ei anfanteision amlwg. Er enghraifft, dim ond teitl a blwyddyn ei gychwyniad a roddir, ac ni restrir yr eitemau yn

nhrefn yr wyddor. Fe'u rhestrir yn hytrach, yn gwbl fymppyol, a cheir yn y gwaith fwy o gamgymeriadau nag a ddisgwylir. Er i Muddiman honni bod ei restrau'n gyflawn, ni allai gwaith sy'n seiliedig ar ddaliadau dwy lyfrgell yn unig obeithio cyrraedd at y nod hwnnw.

Bu nifer o ddatblygiadau arwyddocaol yn llyfryddiaeth y wasg gyfnodol Brydeinig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac fel y gellid disgwyl, efallai, bu nifer o ysgolheigion o'r Taleithiau Unedig yn flaenllaw yn agor y maes. Ym mis Ionawr 1968 ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'r *Victorian periodicals newsletter (Victorian periodicals review* yn ddiweddarach), dan olygyddiaeth Michael Wolff o Bloomington, Indiana. Ym mis Rhagfyr 1968 sefydlwyd y *Gymdeithas Ymchwil*

TLYSAU

YR HEN OESOEDD:

Ief, Gwaith Doethion y Cynfyd.

yn cynwys

Rhan o Gyrcwmwydd yr Hên Ffruteniaid.

Gwedi eu casglu allan o amryw sgrifenadau, er mwyn difyr-
rach i'r sawl a'i chael yncho, ag er mwyn cadw cofnod wriaeth
am yr Hên Wyrda Doethion gynt, a ymdrechasant mor gal-
onnog dros eu Hianth, a'u Gwlad.

Nid wrth ei big y mae pryntu Cyfflog.

Well-founding Verses are the Charms we use,
Heroick Thought and Virtue to infuse.
Things of deep Sense we may in Prose unfold,
But they move more, in lofty Numbers told. *Mr. Waller.*

Argraffwyd Ynghaer-Gybi ym Môn. 1735.